**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau Cyfarfod y Bwrdd ar 29 Mai 2025**
**Cynhaliwyd yn 3.7, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams**
**Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (Gadawodd am 13:25) |
| Angela Williams | (AW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Bethan Bowden | BB | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd |
| Sharon Hillier | (SH) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sgrinio |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Sikha de Souza | (SdS) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Huw David | (HD) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |

*Dechreuodd y cyfarfod am* ***11:00***

Wedi'i Gadarnhau

| ICC 2025.05.29/1 | Croeso ac Ymddiheuriadau |
|---|---|

Croesawodd PB bawb i'r cyfarfod a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn CQ2 ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwylio'r trafodion ar-lein.

**Nododd y Bwrdd yr Ymddiheuriadau** fel y rhestrwyd uchod.

| ICC 2025.05.29/2 | Datganiadau o Fuddiant |
|---|---|

Gofynnodd PB am Ddatganiadau o Fuddiant heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

Nododd PV fod gan bob Swyddog Gweithredol a gweithwyr eraill Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn bresennol fuddiant yn eitem 5.4 (Polisi Teithio Drafft).

| ICC 2025.05.29/3 | Gwasanaethau Sgrinio: Stori'r Claf |
|---|---|

Cyflwynodd MK gyflwyniad a thîm y Gwasanaethau Sgrinio, gan dynnu sylw at bwysigrwydd y gwasanaethau sgrinio sydd ar gael i boblogaeth Cymru, a oedd â'r nod o nodi clefydau yn gynnar gydag opsiynau triniaeth cynnar i sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl. Daeth ei gyflwyniad i ben drwy dynnu sylw at bwysigrwydd ansawdd a dull systematig o roi adborth gan gleifion ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth er mwyn mireinio'r ddarpariaeth gwasanaethau'n barhaus.

Rhoddodd SH, SdS a BB drosolwg o bob un o'r saith rhaglen sgrinio, gan ganolbwyntio ar y ddyletswydd ansawdd a'i chymhwyso ar draws y llwybrau gwasanaeth cyfan, a phwysleisio pwysigrwydd mireinio'r model gwasanaeth yn barhaus trwy adborth cleifion.

Fe wnaethant arddangos enghreifftiau o wella ansawdd gan ddefnyddio'r chwe galluogwr ansawdd, gan ganolbwyntio ar eu dull o ymdrin ag arweinyddiaeth, gweithlu a diwylliant ac yna eu dull o ymdrin â'r chwe maes ansawdd, megis:

- **Diogel**: Gwelliannau yng nghywirdeb data demograffig a myfyrio ar brofiad arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a chydymffurfedd â rheoliadau.
- **Prydlon**: Lleihau diwrnodau methu-diogel o ran sgrinio smotiau gwaed newydd-anedig.
- **Effeithiol**: Ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer y rhai nad ydynt yn ymateb mewn rhaglenni sgrinio.
- **Effeithlon**: Gwrando ar staff drwy weithredu 'Dywedoch Chi Fe Wnaethon Ni' a symleiddio prosesau a lleihau ailadroddiadau y gellir eu hosgoi drwy gamau gweithredu fel gweithredu camerâu newydd yn Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru.
- **Teg:** Mynd i'r afael â rhwystrau i sgrinio ar gyfer poblogaethau penodol, ac optimeiddio'r Rhaglen Sgrinio Coluddion.
- **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Defnyddio adborth defnyddwyr gwasanaeth unigol a chymunedol i weithredu ar brofiadau sgrinio a'u gwella.

Rhannodd y tîm straeon a fideos effeithiol gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar eu meddyliau, eu teimladau a'u profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau a dangos effaith achub bywyd y rhaglenni sgrinio sydd ar gael.

Diolchodd PB i'r tîm am y cyflwyniad cynhwysfawr a gwahoddodd gwestiynau gan y Bwrdd.

Wedi'i Gadarnhau

Wrth wneud sylwadau ar y gwaith rhagorol a ddangoswyd yn y cyflwyniad, gwnaeth KY sylwadau ar ffyrdd o adeiladu ymhellach ar gynnydd megis ymgysylltu â Gwelliant Cymru (IC) a sefydliad Paul Ridd. Cynghorodd BB eu bod yn gweithio gydag IC ar adeiladu tystiolaeth ar y nifer sy'n cael eu sgrinio gyda ffocws ar y Cynllun Gweithredu Anableddau Dysgu a'r potensial i amlygu cynigion sgrinio fel rhan o wiriadau iechyd blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Estynnodd JM wahoddiad i weithio gyda'r tîm mynd i'r afael â diabetes gyda'n gilydd i ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o ddiabetes. Croesawodd y tîm y cyfle i gysylltu ac ystyried ffyrdd gweledol o helpu i leddfu pryder defnyddwyr gwasanaeth a gwella'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth.

Myfyriodd PB yn gadarnhaol ar daith gwelliant parhaus y rhaglenni sgrinio ac awgrymodd rannu'r fideo profiad cleifion effeithiol yn eang ar draws y system a thudalennau gwe'r Sefydliad. Cynghorodd TC, gyda chaniatâd, y gellir cynnwys y fideo a rhywfaint o'r testun cyfatebol yn y cyflwyniad diweddariad misol i Lywodraeth Cymru.

Diolchodd y Bwrdd i'r Tîm Sgrinio am eu cyflwyniad a chymerodd sicrwydd ynghylch yr ymdrechion sydd ar y gweill i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau gan ddefnyddio'r meysydd ansawdd ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y claf.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.05.29/4** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
| **ICC 2025.05.29/4.1** | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, tynnodd TC sylw at uchafbwyntiau allweddol:

- Roedd TC a'i gydweithwyr gan gynnwys PB, MK a JM wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Iechyd Meddwl a Llesiant. Gwnaeth TC sylwadau ar natur agored ac adeiladol y cyfarfod ac ychwanegodd PB at hyn, gan dynnu sylw at eu dealltwriaeth glir o bwysigrwydd y gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn y Sefydliad.
- Amlygodd TC y digwyddiad Deialog Polisi Economi Llesiant diweddar a gynhaliwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y Sefydliad. Myfyriodd TC ar y ffocws cyffredin ar yr economi lles a gosod iechyd cymdeithasol wrth wraidd sefydlogrwydd economaidd. Ychwanegodd SA ei barn ar y digwyddiad, gan nodi'r ffocws ar hyrwyddo Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ymrwymiad cadarnhaol i weithredu drwyddo draw.
- Amlygodd TC sawl digwyddiad diweddar, gan gynnwys wythnos o weithgareddau i nodi dathliad 10 mlynedd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chymeradwyaeth Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Sefydliad a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC) i gryfhau safle'r celfyddydau wrth fynd i'r afael ag iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru.
- Amlygodd TC gyhoeddi'r adroddiad ac astudiaethau achos fframwaith Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Atal (PBHC). Wrth wneud sylwadau ar lansio'r fframwaith, amlygodd JM y gwaith gyda chlinigwyr a nod i symud i ddull sy'n seiliedig ar atal.
- Aeth TC ymlaen i longyfarch SA ar ei gwahoddiad a'i derbyniad fel Cymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru a chydnabod cyfraniad rhagorol Robin Howe wrth iddo ddarparu tystiolaeth yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Covid-19.
- Daeth TC â'i diweddariad i ben drwy nodi, o 1 Mehefin ymlaen, fod Gweithrediaeth GIG Cymru wedi'i ailenwi'n Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Wedi'i Gadarnhau

Diolchodd PB i TC am y trosolwg a gwahoddodd gwestiynau gan y Bwrdd.

Wrth fyfyrio ar y sesiwn sbotolau gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r potensial ar gyfer newid gwleidyddol yn 2026, holodd KY a oedd brys i wreiddio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach. Wrth ailadrodd yr angen i'r Sefydliad aros yn niwtral yn wleidyddol, gwnaeth TC sylwadau ar y ffyrdd y gall y Sefydliad ddylanwadu ar faniffestos a nododd y ffocws gyda Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i barhau i hyrwyddo'r negeseuon atal. Gwnaeth TC sylwadau hefyd ar gyfarfod diweddar gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder a gyflwynodd gyfleoedd posibl i adolygu deddfwriaeth berthnasol a'i heffaith. Gwnaeth SA sylwadau ar adroddiad Comisiynwyr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a nododd fod gan Adroddiad Archwilio Cymru 4 argymhelliad i'r Llywodraeth ynghylch atal ac egwyddorion iechyd y cyhoedd a oedd yn cefnogi agenda'r Sefydliad.

Nododd y Bwrdd y cyfleoedd i gyflwyno'r fframwaith gofal iechyd sy'n seiliedig ar atal ar sail genedlaethol a chroesawodd gynnig KY i gysylltu â'r Grŵp Cynghori Gofal Cenedlaethol. Awgrymodd PB hefyd rannu'r adroddiad ar draws adrannau'r Llywodraeth i helpu i gefnogi a llywio dulliau gweithredu yn y dyfodol. Cytunodd TC i symud hyn ymlaen gyda JM.
**Cam Gweithredu: TC**

Gan nodi pwysigrwydd dylanwadu'n allanol, llongyfarchodd SG gydweithwyr ar draws y Sefydliad ar lwyddiant nifer o weithgareddau a digwyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan roi sylw arbennig i'w cyfranogiad yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI), Sefydliad Iechyd y Byd a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Gan gyfeirio at Gyngor Celfyddydau Cymru, gwnaeth PB sylwadau ar y potensial i ddatblygu cysylltiadau cryfach â Melo (adnoddau Iechyd Meddwl a Llesiant a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) i helpu i uno'r holl linynnau. Croesawodd TC y syniad hwn a chytunodd i wahodd Cadeirydd a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru i gyfarfod o'r Bwrdd.
**Camau Gweithredu: PV**

Nododd y Bwrdd ddiweddariadau'r gyfarwyddiaeth.

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chymerodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd.

| **ICC 2025.05.29/4.2** | **Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd** |
|---|---|

Cyflwynodd IB y Trosolwg Iechyd y Cyhoedd diweddaraf; dechreuodd gyda dilyniant i gwestiynau a godwyd yng Nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Hysbysodd y Bwrdd fod ei dîm yn parhau i ymchwilio a dysgu mwy am dueddiadau disgwyliad oes iach a welwyd yn sir Caerffili, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar ôl i hyn gael ei archwilio.

Gan gyfeirio at y Dangosfwrdd, amlygodd IB:

- Ymddygiadau iach – arhosodd y cynnydd sydyn mewn defnydd o alcohol a adroddwyd i gyfarfod diwethaf y Bwrdd yr un fath, y cam cyntaf i asesu maint y sefyllfa oedd cynnal asesiad o anghenion alcohol a chyffuriau. Roedd yr asesiad bron â'i gwblhau.

Wedi'i Gadarnhau

Roedd yn hysbys bod marwolaethau o ganlyniad i ddefnyddio alcohol ar ôl y pandemig wedi cynyddu.

- Darparu Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd Rhagorol – roedd nifer y plant a gymerodd ran mewn brechiadau yn parhau i fod islaw'r targed, a oedd wedi dod yn ffocws cynyddol i Lywodraeth Cymru. Roedd ffyrdd y gallai'r Sefydliad weithio ymhellach gyda Byrddau Iechyd yn cael eu harchwilio.
- Arhosodd cyfradd C. difficile yn sefydlog ac roedd ffyrdd y gallai'r Sefydliad weithio gyda Byrddau Iechyd yn cael eu hymchwilio.
- Arhosodd tueddiadau llesiant yr un fath ar gyfer pob maes adrodd.
- O ran penderfynyddion ehangach iechyd y cyhoedd, y pryder mwyaf oedd y cynnydd mewn costau byw a welwyd ym miliau mis Ebrill, gyda rhagolygon o bwysau pellach yn y dyfodol.

Cadarnhaodd JM fod yr asesiad o anghenion a ddisgrifiwyd yn gynharach gan IB bron â'i gwblhau. Yn ogystal, roedd effaith alcohol mewn meysydd eraill wedi'i nodi ac felly roedd modiwlau alcohol wedi'u cynnwys mewn rhaglenni eraill, gan gynnwys wrth ddatblygu'r ap diabetes. Asesiad o anghenion oedd y cam cyntaf tuag at weithio mewn unrhyw faes o Iechyd y Cyhoedd a dywedodd JM fod ei dîm wedi bod yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd i adolygu canllawiau a strategaethau perthnasol.

Nododd y dull gweithredu gwahanol sydd ei angen ar gyfer alcohol a chyffuriau oherwydd y gwahanol ffyrdd y cyflwynir y materion hyn, a bod grŵp traws-sefydliadol wedi'i sefydlu i ystyried y dull gweithredu ar gyfer y materion hyn. Nododd fod cyflwyniad ar ffurf clefyd yr afu yn golygu bod Cymru yn wynebu her sylweddol, ac mai alcohol oedd yr achos mewn tua 2-3% (yn seiliedig ar ddata cyfredol) o dderbyniadau ysbyty ymhlith pobl dros 45 oed. Roedd y ffigurau hyn yn debygol o gynyddu ac roedd cyfradd clefyd yr afu mewn pobl o dan 50 oed hefyd yn cynyddu.

Cefnogodd SG wahanu'r dulliau ar gyfer cyffuriau ac alcohol wrth ddadansoddi data, er mwyn mynd i'r afael â'r gwahanol achosion a'r ymatebion sydd eu hangen.

Nododd TR fod ysmygu wedi'i bwysoli tuag at y canraddau lleiaf difreintiedig, tra bod y defnydd o alcohol wedi'i bwysoli tuag at y ganradd mwy cyfoethog; roedd angen archwilio hyn ymhellach.

Tynnodd KY sylw at y newyddion am gost byw yn adroddiad Sefydliad Bevan a awgrymodd y byddai'r diwygiadau budd-daliadau presennol yn arwain at ostyngiad o £466 miliwn i incwm poblogaeth Cymru ac yn effeithio ar 6% o'r boblogaeth gyfan. Gan nodi y byddai'r effaith a'r her o amgylch hyn yn anochel yn effeithio mwy ar y sectorau mwyaf difreintiedig, awgrymodd y byddai defnyddio'r data hwn yn caniatáu dull mwy targedig o ddylunio ymyriadau yn y dyfodol.

Cytunodd PB â hyn ac awgrymodd y dylai'r sefydliad gysylltu â'r Tasglu Hawliau Anabledd a Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar Hawliau Anabledd i roi mwy o fewnwelediad i'r gwaith yn y dyfodol.

Gofynnodd PB am wybodaeth am gyfraddau heintiau C. diff yng Nghymru a gofynnodd a oedd achosion cymharol ar draws y byd ar hyn o bryd. Cadarnhaodd MK un achos o C. diff yn Lloegr, ac roedd Iechyd Cyhoeddus Lloegr wedi adrodd am ddigwyddiad.

Wedi'i Gadarnhau

Roedd MK, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, wedi mabwysiadu dull deinamig o ymdrin ag achosion o’r afiechyd gan ddarparu cymorth a chefnogaeth i dimau lleol i fynd i’r afael â’r achosion. Cefnogwyd timau lleol gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r Rhaglen Heintiau, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd yn eu trafodaethau mewn cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflenwi Integredig (IQPD). Codwyd yr achosion o C. diff mewn cyfarfod JET diweddar gyda Llywodraeth Cymru, ac ystyriwyd y byddai'r profiad a gafwyd yn arwain at ddull mwy cyson ar draws Cymru.

Gofynnodd MK am ffigurau yn y dangosfwrdd yn ymwneud â derbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cytunodd IB i adolygu'r ffigurau o amgylch hyn.
**Cam Gweithredu: IB**

Cadarnhaodd CB fod y Cyfarwyddwyr Nyrsio wedi cytuno ar gynllun gwella parhaus i edrych ar y data derbyniadau cyd-gysylltiedig a byddai hi'n hyrwyddo'r derbyniadau cyd-gysylltiedig ag alcohol yn y Grŵp ac yn ei herio.

Diolchodd PB i CB ac awgrymodd y gallai'r Sefydliad annog cysondeb yn y ffordd y mae grwpiau'n gweithio ac yn adrodd data ar draws y system.

Wrth fyfyrio ar y data imiwneiddio, nododd CJ y dirywiad a welwyd yn y tueddiadau o ran derbyn brechiadau yn genedlaethol, yn ogystal ag yng Nghymru yn benodol.

Cydnabu MK y tueddiadau hyn, ond nododd rywfaint o gynnydd diweddar a oedd yn fwy calonogol. Atgoffodd y Bwrdd nad oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am ddarparu brechiadau, y cyfrifoldeb oedd darparu'r wybodaeth a oedd o gymorth i frechiadau ar y lefel leol. Nododd gyfarfod sydd ar ddod gyda Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd gyda'r nod o hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael a fyddai'n arwain at ganlyniadau gwell i'r boblogaeth.

Trafododd y Bwrdd amheuaeth ynghylch brechu a'r rôl a chwaraeodd y Sefydliad wrth wrthdroi'r dirywiad yn nifer y bobl sy'n cael eu brechu, gan gyfeirio at rôl y Sefydliad gyda'r ymgyrch brechu ffliw gaeaf. Gofynnodd MK i IB a ellid cynnwys y data derbyn amrywiad rhanbarthol yn y dangosfyrddau. Cytunodd IB i ymchwilio i hyn.
**Cam Gweithredu: IB**

Rhoddodd MK y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr achosion o Cryptosporidium ar fferm ym Mro Morganwg. Nodwyd mai arferion a oedd ar waith adeg yr achosion oedd prif achos yr achosion. Roedd y mesurau rheoli a roddwyd ar waith ar 29 Ebrill wedi bod yn effeithiol ac nid oes unrhyw achosion pellach wedi bod. Dechreuwyd ymchwiliad i nodi problemau a darparu cyfleoedd dysgu pellach.

Bu'r Bwrdd **yn trafod** ac yn **craffu** ar Adroddiad y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym a **nododd** y meysydd penodol o ddadansoddi data sydd ar y gweill.

| **ICC 2025.05.29/4.3** | **Adolygu Perfformiad a Chyllid 2024/25** |
|---|---|

Cyflwynodd AW yr adroddiad i'r Bwrdd, a ddarparodd adroddiad perfformiad ychwanegol yn amlygu gwelliannau a heriau a nodwyd hyd at 2024/25. Rhannwyd yr adroddiad yn Gyfarwyddiaethau unigol

Wedi'i Gadarnhau

Wedi'i Gadarnhau

Adrannau:

Cyllid:

Roedd AW yn falch o gyflwyno perfformiad cryf ar draws y flwyddyn 2024-25. Roedd y broses Archwilio wedi cychwyn ac ar y trywydd iawn; roedd sefyllfa drafft yn dangos tanwariant o £195,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Cynyddodd y defnydd o asiantaethau fel canran o gyfanswm y bil cyflogau yn raddol yn ystod y flwyddyn, ond arhosodd yn gymharol isel a chyflawnodd y targed o ostyngiad blwyddyn ar flwyddyn o'r flwyddyn flaenorol.

Llywodraethu ac Atebolrwydd:

Amlinellodd NL y gwaith gyda rheolwyr i wella cywirdeb y data sy'n adrodd ar salwch; roedd angen gwella'r data ymhellach. Cynigiodd NL gyflwyno adroddiad mwy manwl ynghylch cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, gan gynnwys lefelau straen a gorbryder, i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol nesaf ym mis Gorffennaf a gweithio drwy gynigion i wella ansawdd y data.
**Cam Gweithredu: NL**

Gofynnodd NE am eglurhad ar ddiffiniad y term tymor hir, gan nodi nad oedd yn glir yn y graffiau yn yr adroddiad y cyfnod yr oedd yn cyfeirio ato. Cytunodd NL i ddarparu'r diffiniad i'r cyfarfod nesaf.
**Cam Gweithredu: NL**

Nododd NE y gwelliant yn y ffigurau a adroddwyd ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol ac ar gyfer cydymffurfio ag arfarniadau. Roedd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi parhau i adolygu hyn, gan gynnwys adroddiad penodol ar gydymffurfiaeth yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r sefyllfa.

O ran y data gwerthuso, awgrymodd TC gynnwys nifer y bobl mewn Cyfarwyddiaethau ochr yn ochr â'r ganran gan y byddai'r ffigurau'n caniatáu gwell dealltwriaeth o'r effaith / graddfa wrth ystyried y Cyfarwyddiaethau llai.
**Cam Gweithredu: NL**

Mewn perthynas â'r Adran Llywodraethu Gwybodaeth, amlinellodd CB y gwelliannau a wnaed i amseroedd ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth; a'r bwriad i wella'r adnoddau o fewn y tîm hwn ymhellach gyda recriwtio Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth ar y gweill.

Cyfeiriodd CB at y digwyddiadau mewn perthynas ag Adroddiad y Ddyletswydd Gonestrwydd; adroddwyd am ddau ddigwyddiad, ac ymatebwyd i'r ddau ac ymchwiliwyd iddynt yn briodol. Rhagwelwyd y byddai nifer y digwyddiadau a adroddwyd yn cynyddu wrth i welliannau i'r diwylliant adrodd gael eu hymgorffori.

Cyflenwi Gwasanaethau:

O ran perfformiad sgrinio, nododd MK y tueddiadau gwella dros y flwyddyn ar gyfer sawl un o'r rhaglenni sgrinio. Roedd Prawf Bron Cymru wedi gwella o'r ôl-groniad pandemig ym mis Gorffennaf 2024, fodd bynnag roedd problemau sylfaenol o ran gallu darparu clinigau asesu

yn gyson o fewn 3 wythnos i sgrinio. Roedd cynlluniau ar waith i symleiddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Canfu adolygiad diweddar o weithredu offer newydd yn Bron Brawf Cymru broblemau gyda'r unedau symudol a ddefnyddiwyd, gan arwain at golli darpariaeth gwasanaeth am gyfnod byr; roedd modd dargyfeirio llawer o'r cleifion i ganolfannau asesu eraill. Mae'r uned wedi cael ei hailgomisiynu ers hynny a bydd yn gweithredu eto yn yr wythnosau nesaf.

Mewn perthynas â Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, roedd rhaglen a bwrdd trawsnewid wedi'u sefydlu i wella effeithlonrwydd ac i edrych ar ffyrdd arloesol o wella canlyniadau. Defnyddiwyd llwybr risg isel gan newid yr amseroedd i alw'n ôl ymhen 2 flynedd ar gyfer cleifion mewn risg isel, ac roedd ffyrdd eraill o weithio yn cael eu harchwilio, megis cael gwared ar y diferion llygaid fel rhan o'r broses a fyddai o bosibl yn cynyddu nifer y cleifion a welir, fodd bynnag roedd angen sicrhau y byddai ansawdd y delweddau'n aros yr un fath.

O ran y Gwasanaeth Sgrinio Coluddion, roedd angen gwelliannau pellach i gyrraedd y targed aros o bedair wythnos; gwaith i ddeall yr ymyriadau sydd eu hangen ac roedd TC i gyfarfod â chymheiriaid mewn Byrddau Iechyd i fynd i'r afael â'r pryderon a'r achosion sylfaenol dros yr oedi. Byddai'r ymyriadau ar lefel leol yn parhau a byddai data'n cael ei rannu â Byrddau Iechyd i gefnogi trafodaethau parhaus. Roedd y mater hwn hefyd wedi cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru.

Awgrymodd NE gynnwys trywydd adferiad i fesur cynnydd a'r dyddiad cwblhau targed. Nododd hefyd anomaledd yn y safon ar gyfer mesur amser troi o lai na 4 awr a'r sgôr o 100%. Cytunodd MK i adolygu'r metrigau ac ystyried sut i gynnwys trywydd yn y data.
**Cam Gweithredu: MK**

Cododd TR nifer o bryderon ynghylch y ffigurau sgrinio, a gofynnodd am eglurhad ar y rhesymau sylfaenol dros fod y mesurau y tu allan i'r amserlenni targed, megis problemau hyfforddi, heriau recriwtio neu adnoddau. Awgrymodd y byddai esboniad pellach o'r achosion sylfaenol, a'r cynllun i fynd i'r afael â'r rhain yn ddefnyddiol er mwyn rhoi'r sefyllfa gyffredinol i'r Bwrdd.

Diolchodd PB i MK am y wybodaeth a ddarparwyd. Gofynnodd i MK adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â'r data sgrinio a ddarparwyd, a chynnal adolygiad systematig o ddarpariaeth y Gwasanaeth Sgrinio, gan gynnwys strwythurau, prosesau, achosion sylfaenol yr oedi, a'r camau gweithredu gwella cysylltiedig a fyddai'n cefnogi gwelliant i'r ddarpariaeth.
**Cam Gweithredu: MK**

O ran y data, y dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol, nododd JM mai cynllun gwirfoddol oedd hwn, a bod 100% o ysgolion uwchradd wedi cofrestru yng Nghymru; Cymru oedd yr unig genedl i gyflawni'r ffigur hwn. Gwnaeth sylwadau ar Brifathrawon, Cyfarwyddwyr Addysg a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol am eu parodrwydd i ymgysylltu â'r rhaglen hon. Roedd y Sefydliad bellach yn gweithio gyda grŵp amlasiantaeth i ddatblygu diwrnod ysgol cyfan iach yn feddyliol a diwygiadau i'r pecyn cymorth i'w gwneud hi'n haws i Benaethiaid Ysgolion ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Wedi'i Gadarnhau

Llongyfarchodd SG JM ar y ffigurau cofrestru ysgol rhyfeddol; gofynnodd sut y byddai effaith hyn yn cael ei mesur. Cadarnhaodd JM fod y tîm yn gweithio ar ffyrdd o ddefnyddio segmentu i fesur yr effaith.

Aeth JM ymlaen i amlinellu'r data a oedd wedi'i gynnwys ar ddangosfwrdd cyfraddau ysmygu; arhosodd lefelau ysmygu yn sefydlog. Roedd y Sefydliad wedi cefnogi Llywodraeth Cymru ar faterion deddfwriaethol ac wedi ymgymryd â gwaith gwella ansawdd yn ymwneud â chyfraddau rhoi'r gorau i ysmygu.

Gofynnodd PB a oedd y wybodaeth ar gael yn cymharu cyfraddau fepio gydag ysmygu. Cadarnhaodd JM fod y ffigurau'n ymwneud ag ysmygu yn unig o fewn y dangosfwrdd, fodd bynnag nododd fod cryn dipyn o wybodaeth am fepio ar gael ac awgrymodd y gellid cyflwyno hyn i'r Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol ar gyfer trafodaeth fanylach.
**Cam Gweithredu: JM**

Gofynnodd PB hefyd a oedd data ar gael ynghylch pa mor hir yr oedd pobl wedi bod yn ysmygu, er mwyn ystyried nifer y bobl oedd yn dechrau ysmygu o'i gymharu â'r rhai a oedd wedi bod yn ysmygu ers sawl blwyddyn a chytunodd y byddai rhagor o wybodaeth ynghylch pa mor hir yr oedd pobl wedi bod yn ysmygu yn ddefnyddiol. Gofynnodd PB i JM gyflwyno'r wybodaeth hon i'r Bwrdd yn y dyfodol, gan gynnwys cipolwg ar effaith y data hwn ar yr ymyriadau a ddarparwyd.
**Cam Gweithredu: JM**

Rhoddodd SA drosolwg o brif gyflawniadau'r Tîm Polisi ac Iechyd Rhyngwladol a amlinellwyd yn yr adroddiad.

- Y gwaith traws-sefydliadol a wnaed ar gadw gwyliadwriaeth ar hinsawdd.
- Y gwaith gwyddor ymddygiad a'r gymuned gwyddor ymddygiad sy'n tyfu yng Nghymru.
- Roedd deddfwriaeth Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cael ei datblygu gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r rheoliad ac i gefnogi'r gweithrediad.
- O ran y dull sy'n ystyriol o drawma, roedd y tîm wedi gweithio ar draws Cymru mewn amrywiaeth o feysydd i ddod yn ystyriol o drawma gan gynnwys tai, cyfiawnder troseddol ac addysg; roedd Cyngor Prydain ac Iwerddon wedi dewis y gwaith hwn i'w arddangos.

Gwnaeth SG sylwadau ar faint o ddata ymchwil a wnaed yn ystod y flwyddyn a oedd wedi cynhyrchu incwm i'r Sefydliad.

**Ystyriodd** y Bwrdd berfformiad a threfniadau llywodraethu'r Sefydliad yn ystod 2024/25 a derbyniodd **sicrwydd** arnynt.

| | |
|---|---|
| **Egwyl** | |
| **ICC 2025.05.29/4.4** | **Adroddiad Perfformiad Integredig (Mis 1), Adroddiadau Cyllid** |

Cyflwynodd AW yr Adroddiad Perfformiad i'r Bwrdd ac amlygodd cydweithwyr Gweithredol y materion allweddol canlynol:

- Hysbysodd IB y Bwrdd fod y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn cynnwys cynnig ar gyfer system fesur, gan nodi'r canlyniadau. Byddai hyn yn cael ei ddiweddaru

Wedi'i Gadarnhau

Wedi'i Gadarnhau

gyda'r dangosyddion yn ôl yr angen ynghyd ag unrhyw werthusiadau. Yna gellid defnyddio hyn fel y llinell sylfaen y gellid mesur data yn y dyfodol yn ei herbyn.

- Tynnodd IB sylw at yr adran werthuso, a oedd yn sôn am ddau werthusiad sydd ar ddod, sef Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan a Gwerthusiadau Canlyniadau Adsefydlu Canser Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF).

Nododd SG fod hyn yn gynnydd da, ac roedd yn falch o weld y mesuriadau canlyniad wedi'u cyflwyno'n glir.

Sicrhaodd MK y Bwrdd ei fod yn parhau i weithio gyda thîm IB i adlewyrchu gwaith gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio o fewn hyn.

Ailadroddodd TC fod datrys y problemau ynghylch sicrhau data gofal sylfaenol yn destun pryder parhaus i'r Sefydliad a'i bod hi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r problemau ynghylch sut y rhannwyd y data.

O ran y Strategaeth Canlyniadau Disgwyliad Oes cyffredinol, nododd IB y cysylltiad â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, risg newydd fyddai methu ag ymateb i gyfraddau arolygon, gan arwain at ostyngiad mewn disgwyliad oes iach.

**Ystyriodd** y Bwrdd a derbyniodd **sicrwydd** ar berfformiad a threfniadau llywodraethu'r Sefydliad, cynnydd yn erbyn cyflawni ei strategaeth gan gynnwys cyflawni/adfer gwasanaethau a rhaglenni allweddol, a diweddariad newydd ar Fesur Canlyniadau.

| **ICC 2025.05.29/4.5** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau** |
|---|---|

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad a gwahoddodd aelodau'r Pwyllgor i amlygu unrhyw eitemau o'u cyfarfodydd Pwyllgor priodol.

**Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd**
Amlygodd SG y drafodaeth ynghylch UXA ac ail-negodi contractau.

**Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**
Amlygodd NL y ffocws yn y cyfarfod diwethaf ar gyflawniadau'r IMTP, a sgyrsiau parhaus ynghylch risg a pharodrwydd i dderbyn risg.

**Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**
Tynnodd NE sylw at y ffaith bod y Pwyllgor hefyd wedi derbyn cyflwyniad ar y cyfrifon drafft, a oedd wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hadolygu, a thynnodd sylw at adroddiadau Gweithrediaeth y GIG a'r gwelliannau a wnaed eleni yn y wybodaeth a ddarparwyd.
Hefyd, rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd fod y Pwyllgor, mewn cyfarfod blaenorol, wedi herio'r sgôr sicrwydd ar gyfer adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cadarnhau bod sgôr sicrwydd yr adroddiad hwn wedi'i huwchraddio o sicrwydd Rhesymol i sicrwydd Sylweddol ers hynny.

Diolchodd PB i bawb am y diweddariadau.

**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad a **chymerodd sicrwydd** o'r cynnwys a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.

| **ICC 2025.05.29/4.6** | **Adroddiadau Blynyddol a Chynlluniau Gwaith y Pwyllgor** |
|---|---|

Rhoddodd PV drosolwg o'r adroddiad, a gyflwynodd y dogfennau canlynol gan Bwyllgorau'r Bwrdd i'r Bwrdd:

- Adroddiad Blynyddol Cyfunol ar gyfer 2024/25 yn crynhoi gweithgaredd y Pwyllgorau eleni.
- Crynodeb o adolygiad blynyddol y Pwyllgor o Effeithiolrwydd.
- Cynlluniau gwaith y Pwyllgorau ar gyfer 2025/26.

Amlygodd PV y gwaith a wnaed i groesgyfeirio gwaith y Pwyllgorau â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac at y dull o weithio ar draws pwyllgorau.

Myfyriodd NE ar faint y gwaith a wnaed eleni gan y Pwyllgorau, a'r dulliau a gymerwyd a alluogodd olrhain eitemau'n effeithiol rhwng Pwyllgorau.

Adleisiodd TC hyn, a thynnodd sylw at y manylion a gynhwyswyd i gysylltu gwaith y Pwyllgorau â gwaith y Bwrdd, a'r Blaenoriaethau Strategol.

Diolchodd PB i'r Tîm am eu gwaith i ddatblygu'r dogfennau hyn a'r gefnogaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgorau i sicrhau eu heffeithiolrwydd.

Gwnaeth y Bwrdd y canlynol:
**Effeithiolrwydd Pwyllgorau**

- **Ystyriwyd** crynodeb o'r adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor.
- **Nodwyd** y byddai Grŵp Cadeiryddion y Traws-bwyllgor yn adolygu'r cynnydd gyda gweithredu'r camau gweithredu a'r camau nesaf yn ystod 2025/26.
- **Cymerodd** sicrwydd bod system effeithiol o adolygu a gwelliant parhaus ar waith ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd.

**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor**

- **Ystyriwyd** adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfun ar gyfer 2024/25 a **chymerodd sicrwydd** bod y Pwyllgorau wedi cyflawni eu cylch gorchwyl yn effeithiol.

**Cynlluniau Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26**

- **Ystyriwyd** Cynlluniau Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26, a **chymerodd sicrwydd** bod gan y Pwyllgorau gynllun priodol ar waith ar gyfer 2025/26 i gyflawni eu Cylch gorchwyl.

| **ICC 2025.05.29/4.7** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |
|---|---|

Cyflwynodd CB y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) i'r Bwrdd; nododd fod y CRR yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn ar gyfer sicrwydd. Roedd y Tîm Arwain o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dirprwyo cyfrifoldeb i graffu ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar ran y Tîm Gweithredol Busnes.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r risgiau corfforaethol cyfredol sy'n cael eu rheoli gan y sefydliad; roedd 11 risg wedi'u cofnodi ar hyn o bryd.

Wedi'i Gadarnhau

Gofynnodd PB am ragor o wybodaeth am risg 1614 yn ymwneud â Threfniadau Lletya Gweithredwyr y GIG. Esboniodd PV fod y risg ar ei sgôr darged; nid oedd y cytundeb lletya ar waith yn ffurfiol gyda rhai materion heb eu datrys yn cael eu datrys. Fodd bynnag, roedd Gweithrediaeth y GIG yn dilyn yr amserlen sicrwydd ddrafft, gydag adrodd ar waith i'r Pwyllgorau Bwrdd perthnasol. Unwaith y byddai'r Cytundeb Cynnal wedi'i gwblhau, mae'n debyg y byddai'r risg yn cael ei lleihau.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** ynghylch rheolaeth y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.05.29/4.8** | **Cytundeb Lletya Gweithrediaeth y GIG** |

Rhoddodd PV ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol gyda Chytundeb Lletya Gweithrediaeth y GIG.

Nid oedd y Cytundeb Lletya ar gyfer 2025/26 wedi'i gytuno'n ffurfiol eto, gan aros am gytundeb ar yr Ardoll Lletya. Cyfeiriodd hefyd at y newidiadau diweddar i Weithrediaeth y GIG a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y newid teitl i Perfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru a newidiadau strwythurol eraill i gyfansoddiad yr Uned, y byddai angen eu hadlewyrchu yn y cytundeb terfynol.

Sicrhaodd PV y Bwrdd fod Gweithrediaeth y GIG yn adrodd yn unol â'r amserlen sicrwydd a bod cynnydd yn cael ei wneud i ddatrys y mater gyda'r Ardoll Lletya.

Diolchodd PB i PV am y diweddariad.

| | |
|---|---|
| **ICC 2025.05.29/5** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **ICC 2025.05.29/5.1** | **Fframwaith Llywodraethu - Adolygiad Blynyddol** |
| **ICC 2025.05.29/5.1.1** | **Adolygiad Blynyddol Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor** |

Cyflwynodd PV yr adroddiad yn cyflwyno diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog (SOs) a Chylch Gorchwyl (TOR) y Pwyllgor i'r Bwrdd i'w cymeradwyo. Cadarnhaodd ei bod yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygu'r SOs yn flynyddol; nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Model Rheolau Sefydlog diwygiedig ar gyfer 2025 eto. O'r herwydd, roedd adolygiad interim wedi digwydd a mân newidiadau wedi'u cynnig i ddiweddaru'r ddogfen.

O ran Cylch Gorchwyl y Pwyllgor, roedd dogfennau diwygiedig wedi'u datblygu yn dilyn Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor, a'r sesiynau cynllunio gwaith. Crynhowyd y newidiadau arfaethedig yn yr adroddiad, gan gynnwys diweddaru'r Cylchoedd Gorchwyl i adlewyrchu amserlen Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG sydd ar waith.

Aeth PV ymlaen i egluro bod gofyniad hefyd i adolygu'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs), yn benodol y byddai angen diweddariadau i adlewyrchu Deddf Caffael 2023. Byddai hyn yn cael sylw ar sail Cymru gyfan, yn unol â'r cyfarwyddiadau model cenedlaethol sy'n cael eu diwygio ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

Nododd MK y newid o fewn y cylch gorchwyl i adlewyrchu gwaith adrodd y Pwyllgor o amserlen sicrwydd Gweithrediaeth y GIG. Gan nodi newid teitl Gweithrediaeth y GIG i Uned Perfformiad a Chynhyrchiant y GIG o 1 Mehefin 2025, awgrymwyd y dylid diweddaru'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r teitl newydd a'i gyhoeddi o 1 Mehefin 2025.

Wedi'i Gadarnhau

**Ystyriodd** a **chymeradwyodd** y Bwrdd y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a'r Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, yn weithredol o 1 Mehefin 2025, yn amodol ar ddiwygio teitl Gweithrediaeth y GIG gyda Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.
**Cam Gweithredu: LB**

| **ICC 2025.05.29/5.1.2** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
|---|---|

Cyflwynodd PV yr adroddiad yn crynhoi'r diweddariadau arfaethedig i'r dogfennau canlynol:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Rheolau'r Bwrdd
- Protocol ar gyfer cyfarfodydd preifat

Esboniodd fod y dogfennau'n cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fyw ac yn gyfredol. Roedd adolygiad mewnol wedi digwydd, a chynigiwyd mân newidiadau i'r dogfennau; roedd crynodeb o'r newidiadau arfaethedig wedi'i ddarparu yn yr adroddiad eglurhaol.

**Ystyriodd** a **chymeradwyodd** y Bwrdd:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Protocol ar gyfer Cyfarfodydd Preifat
- Rheolau'r Bwrdd

| **ICC 2025.05.29/5.2** | **Strategaeth Pobl** |
|---|---|

Cyflwynodd NL y Strategaeth Pobl i'r Bwrdd a thynnodd sylw at y ffaith bod y gwaith ar y strategaeth wedi'i wneud drwy ymgysylltu'n helaeth â chydweithwyr, Undebau Llafur, Fforwm Partneriaeth Lleol a'n Rhwydweithiau Staff. Mae'r Strategaeth bellach wedi'i chysylltu â'n Strategaeth Hirdymor ac wedi nodi'n glir ein gweledigaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf mewn perthynas â'n pobl.

Nododd NL y camau nesaf yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd, sef cynllunio a chyflawni'r cynllun. Ychwanegodd NL y byddai'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn chwarae rhan allweddol wrth yrru cyflawni'r cynllun, ynghyd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn olrhain y cyflawniadau.

Diolchodd PB i NL a diolchodd i'r Bwrdd am eu mewnbwn i'r Strategaeth.

Canmolodd TC y strategaeth a diolchodd i'r tîm am eu gwaith a nododd y byddai'r cam nesaf o greu cynllun gweithredu yn allweddol i gyflawni'r strategaeth dros y 10 mlynedd nesaf. Pwysleisiodd TC yr angen i sicrhau bod y cynllun gweithredu yn hyblyg ac yn hawdd ei ddefnyddio i bob cyfarwyddiaeth, y gallai'r Tîm Gweithredol adolygu cynnydd ei gyflawni.

Nododd PB y byddai cynllunio a chynnydd y strategaeth yn cael eu hadrodd drwy'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ac yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Bwrdd drwy ddiweddariad Cadeiryddion y Pwyllgorau.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y Strategaeth Pobl 2025 – 2035 wedi'i diweddaru.

| **ICC 2025.05.29/5.3** | **Cynllun Cyfalaf 2025-26** |
|---|---|

Cyflwynodd AW Gynllun Cyfalaf 2025-26 i'r Bwrdd, gan ofyn am gymeradwyaeth i'r dyraniad cyfalaf dewisol a'r cynllun gwariant, a nodir yn Nhabl A. Nododd AW yn y papur fod

Wedi'i Gadarnhau

| | |
|---|---|
| diweddariad ar y Cyllid Cyfalaf Strategol, a oedd yn cynnwys y cynigion cymeradwy a'r rhai heb eu cymeradwyo hyd yma, a statws y sefyllfa strategol.<br><br>Nododd AW fod cronfa wrth gefn fwy nag arfer (£300k) yn cael ei chadw ar gyfer materion brys y gallai fod angen eu datrys; byddai'r cyllid hwn yn cael ei ailddyrannu os na chaiff ei ddefnyddio.<br><br>Sicrhaodd TC y Bwrdd fod y cynllun wedi cael ei adolygu ar Lefel Weithredol a'i fod wedi bod trwy broses adolygu helaeth yn fewnol.<br><br>**Cymeradwyodd** y Bwrdd y Cynllun Cyfalaf 2025-26. | |
| **ICC 2025.05.29/5.4** | **Polisïau i'w Cymeradwyo - Polisi Teithio** |
| Cyflwynodd AW y Polisi Teithio Busnes drafft i'r Bwrdd, gan bwysleisio bod y Polisi yn darparu cyngor defnyddiol a chyfle i bobl ystyried opsiynau teithio mwy cynaliadwy. Nododd fod y Polisi wedi bod trwy broses adolygu ac ymgynghori helaeth a'i fod wedi bod yn ddarn helaeth o waith.<br><br>Cytunodd NE fod y canllaw yn hawdd ei ddarllen ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i staff.<br><br>Nododd PB fod adran ar addasiadau rhesymol yn y Polisi, fodd bynnag awgrymodd y gellid tynnu mwy o sylw at hynny drwy gydol y polisi, er enghraifft, efallai y bydd achlysuron lle mae angen cludiant ar bobl y tu allan i awgrymiadau'r polisi, fel cael tacsi fel rhan o addasiad rhesymol. Cytunodd AW i wneud hyn yn fwy eglur yn y fersiwn derfynol.<br>**Cam Gweithredu: AW**<br><br>**Ystyriodd** y Bwrdd y Polisi Teithio Busnes drafft ICC a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd cysylltiedig a nododd fod y polisi wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Tîm Arwain, a bod y sylwadau a ddeilliodd o hynny wedi'u hadolygu a'u hymgorffori.<br><br>Yn amodol ar y gwelliant i gynnwys mwy o wybodaeth am addasiadau rhesymol, **cymeradwyodd** y Bwrdd y Polisi Teithio Busnes drafft ICC. | |
| **ICC 2025.05.29/5.5** | **Cofnodion a Chofnod Camau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd (26 Mawrth 2025)** |
| **Cymeradwyodd** y Bwrdd gofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.<br><br>**Ystyriodd** y Bwrdd y Camau Gweithredu agored ar y Cofnod Camau Gweithredu. Cymeradwywyd cau'r camau gweithredu a gwblhawyd. | |
| **ICC 2025.05.29/5.6** | **Cadarnhau Camau Gweithredu gan y Cadeirydd a gosod y Sêl Gyffredin** |
| **Nododd** y Bwrdd nad oedd unrhyw achlysur lle cymerwyd Camau Gweithredu gan y Cadeirydd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth<br><br>**Nododd** y Bwrdd fod un defnydd wedi'i wneud o'r Sêl Gyffredin i adrodd i'r Bwrdd: | |

Wedi'i Gadarnhau

- I ffurfioli'r trefniant Is-osod y cytunwyd arno rhwng y landlord ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- I ffurfioli'r Is-brydles y cytunwyd arni ar ran Llawr 5, Capital Quarter 2 i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER)
- Er mwyn ffurfioli'r Drwydded i Newid rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a CTER, cwblheir y cytundeb ar gyfer y gwaith ffitio a gwblhawyd hyd yma.

Cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** bod y camau gweithredu wedi'u cymryd yn unol ag Adran 8 o'r Rheolau Sefydlog.

| **ICC 2025.05.29/5.7** | **Archwiliad Trawsnewid Digidol – Archwilio Cymru** |
|---|---|

Cynghorodd IB y Bwrdd fod Archwilio Cymru wedi cwblhau'r cylch gwaith ar gyfer Archwiliad Trawsnewid Digidol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yr archwiliad yn rhan o set gydlynol o archwiliadau ar draws pob Corff Iechyd yng Nghymru a oedd yn digwydd dros y misoedd nesaf.

Fel rhan o'r Archwiliad, gofynnwyd i bob corff gyflwyno hunanasesiad yn seiliedig ar holiadur a fyddai'n cael ei anfon allan gan Archwilio Cymru yn fuan. Roedd yn ofyniad bod pob Aelod o'r Bwrdd yn cael cyfle i gyfrannu at yr hunanasesiad. Byddai IB yn dosbarthu holiadur Archwiliad Trawsnewid Digidol – Archwilio Cymru i holl Aelodau'r Bwrdd i gael mewnbwn.
**Cam Gweithredu: IB**

Dywedodd IB, oherwydd amserlen yr adroddiad hwn, ei fod yn gofyn i'r Bwrdd ddirprwyo cymeradwyaeth i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.

**Nododd** y Bwrdd yr Archwiliad Trawsnewid Digidol sydd ar ddod gan Archwilio Cymru sy'n rhan o archwiliad ehangach o Drawsnewid Digidol ym mhob corff Iechyd yng Nghymru a **nododd** y byddai holiadur hunanasesu yn cael ei gwblhau y byddai cyfle i bob aelod o'r Bwrdd gyfrannu ato.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd ddirprwyo llofnodi'r hunanasesiad i gyfarfod y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ar 17 Mehefin 2025.

| **ICC 2025.05.29/6** | **Eitemau i'w Nodi** |
|---|---|
| **ICC 2025.05.29/6.1** | **Adroddiad Preifat y Cadeirydd (26 Mawrth 2025)** |

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad Preifat y Cadeirydd.

| **ICC 2025.05.29/6.2** | **Blaengynllun y Bwrdd** |
|---|---|

**Nododd** y Bwrdd Flaengynllun y Bwrdd.

Nododd CB fod angen diwygio amseriad yr adroddiad Risg Gorfforaethol i adlewyrchu ei fod wedi cael ei ystyried gan y Bwrdd yn y cyfarfod hwn.
**Cam Gweithredu: LB**

| **ICC 2025.05.29/6.3** | **Papurau Preifat y Bwrdd** |
|---|---|

Dim.

| **ICC 2025.05.29/6.4** | **Adroddiad Perfformiad Integredig (Mis 12) ac Adroddiadau Cyllid** |
|---|---|

Wedi'i Gadarnhau

| | |
|---|---|
| **Nododd** y Bwrdd yr Adroddiadau. | |
| **ICC 2025.05.29/6.5** | **Ffurflen Flynyddol AaGIC** |
| **Nododd** y Bwrdd Ffurflen Flynyddol AaGIC. | |
| **ICC 2025.05.29/7** | **Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf** |
| Diolchodd PB i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 31 Gorffennaf 2025. | |
| Daeth y cyfarfod i ben am 14:30. | |

Wedi'i Gadarnhau